LC57(R)(W)

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD PWYLLGOR DEDDFAU**

# Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2000

## Y Cefndir

Mae adran 9(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd 1999, yn darparu "an originating capital" o swm a bennir drwy orchymyn ar gyfer pob Ymddiriedolaeth NHS. Y swm hwn fydd, yn ei hanfod, gormodedd gwerth yr asedau a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth dros y dyledion a drosglwyddwyd iddi.

Mae swyddogaeth gwneud y gorchymyn yn awr yn swyddogaeth i'r Cynulliad.

Yn unol â hynny mae'r gorchymyn presennol yn pennu swm y cyfalaf cychwynnol ar gyfer 11 Ymddiriedolaeth NHS yng Nghymru.

Mae adran 9(8) o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn sy'n pennu cyfalaf cychwynnol gael ei wneud gyda chydsyniad y Trysorlys. Mae effaith y gofyniad hwn wedi'i chadw yn benodol gan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau. Felly, os bydd y Cynulliad yn penderfynu bod y gorchymyn hwn yn cael ei wneud, bydd gofyn cael cydsyniad y Trysorlys, fel y darperir ar ei gyfer yn y ddarpariaeth lofnodi, cyn i'r gorchymyn gael ei wneud gan y Llywydd.

## Rheol Sefydlog 11.5

Wrth ystyried y gorchymyn drafft fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Busnes, nododd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau fod y rhagarweiniad yn enwi is-adrannau (1) a (4) o adran 9 fel pwerau galluogi.

Gan nad oes swyddogaeth gwneud gorchymyn yn is-adran (4), fodd bynnag, roedd enwi'r ddarpariaeth hon yn cael ei ystyried fel diffyg yn y drafftio.

Mae’r mater hwn wedi’i gywiro yn y gorchymyn drafft a osodir gerbron y Cynulliad felly ni fydd gofyn bellach i’r Pwyllgor Deddfau gychwyn y gweithdrefnau o dan RhS 11.4 a 11.5. Mae angen nodi , er hyn, taw nid y drafft a osodwyd o flaen y Cynulliad a gyflwynwyd i’r Pwyllgor ond drafft blaenorol.

Bydd angen diwygio troednodyn (b) o ganlyniad i hyn hefyd, ond mae’n ymddangos nad yw’r copi o’r drafft a osodwyd o flaen y Cynulliad sydd ar y mewnrwyd yn cynnwys troednodion.

**Sylwadau Cyffredinol**

Yn y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Busnes mae’r nodiadau o dan bennawd y Nodyn Esboniadol yn cyfeirio at "Rheoliadau"/"Regulations", ond Gorchymyn yw’r Offeryn, mewn gwirionedd.

Yn yr Atodlen, dylai’r ddau destun gynnwys cyfeiriad ar ymyl y ddalen ar y llaw dde i ddynodi bod yr Atodlen yn deillio o Erthygl 2/Article 2.

Mae’r pwyntiau uchod wedi’u cywiro yn y gorchymyn drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad, ond fel y soniwyd uchod, y drafft blaenorol a gyflwynwyd i’r Pwyllgor.

**MICHAEL GERMAN OBE AC**

Cadeirydd

Pwyllgor Deddfau

**7fed Mawrth 2000**

LAD –01-01-089